# Cyngor  Cymuned  Llandwrog Community Council

## Cyfarfod o’r Cyngor Llawn Chwefror 2019

## *Full Council Meeting February 2019*

Rhoddir rhybudd y cynhelir Cyfarfod Llawn  o’r Cyngor ar **Nos Lun, 18 Chwefror 2019 yn Neuadd Pentref Carmel i gychwyn 7.30 yr hwyr** ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.

Notice is herby given that the next Monthly meeting of the Council will be held on **Monday, 18 Februaryg 2019 at Carmel Village Hall to commence 7:30 pm** and you are summoned to appear

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i’r cyfarfod gychwyn.
Planning applications will be available to view twenty minutes before the start.

Amgaeaf y canlynol i chwi
The following is enclosed -

1) Rhaglen Cyfarfod 18 Chwefror 2019 - Agenda for the Council Meeting 18 February 2019
2) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 21 Ionawr 2019 - Draft Minutes of the Council Meeting 21 January 2019.
3) Cofnodion Cyfarfod Arbennig - Ymgysyltu a gynhaliwyd 7 Chwefror 2019 -  Minutes of the Special Meeting – Cosulting with the Community held 7 February 2019
4) Cofnodion drafft Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 13 Chwefror 2019 – i ddilyn -  Drafft Minutes of the Finance Committee held 13 February 2019 – to follow

| Cyfarfod / Meeting | Cyngor Llawn – Full Council |
|---|---|
| Dyddiad / Date | Nos Lun, 18 Chwefror 2019 / Monday, 18 February 2019 |
| Amser/ Time | 7.30 yr hwyr / pm |
| Lleoliad/ Location | Neuadd Pentref Carmel Village Hall |

## Rhaglen / Agenda

***(noder y bydd Ann Llwyd yn bresennol i gyfieithu'r trafodaethau / note that Ann Llwyd will be in attendence to translate proceedings)***

**1** **Croeso'r Cadeirydd /** ***Chairman's Welcome***

**2** **Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau /** ***Apologies from Members***

**3** **Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen /** ***To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.***

**4** **Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd 21 Ionawr 2019 fel Rhai Cywir-** ***To Accept the Minutes of the Full Council meeting held 21 January 2019, as a true record .***

**5** **Materion yn Codi o'r Cofnodion –** ***Maters Arising from the Minutes***

a) **Maes Parcio Bryn'rodyn** / **Bryn'rodyn Car Park**
Diweddariad ar y noson / Update will be given in the meeting

b) **Llloches Bws Cae'r Moel / Cae'r Moel Bus Shelter**
Diweddariad ar y noson / Update will be given in the meeting

c) **Cronfa Adran 106 Tyrbeini Gwynt Dinas Dinlle / Dinas Dinlle Wind Turbines Section 106 Fund**

Diweddariad ar y noson – Update in the meeting

d) **Profion Diogelwch Cerrig Beddi Fynwent Llandwrog** ***– Safety Tests on Headstones at Llandwrog Cemetery***

Diweddariad ar y noson – Update in the meeting

## dd) **Cyflwr Lonydd /** ***Road Conditions***

Debyniwyd y canlynol gan StaffanJones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrddeistrefol

*Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb mewn perthynas ar isod.*
*Peiriannydd Ardal bellach wedi cadarnhau bod cyd-fesur o'r ffyrdd rydych yn ei nodi wedi cymryd lle gyda chontractwr. Mae wedi derbyn amcan brisiau ar gyfer y gwaith, ac mae nawr yn disgwyl i weld os oes digon o gyllideb ar ôl i'w ariannu. Mae yn nodi bod rhaglen waith ei'n contractwr eisoes reit llawn felly ym mhob tebygrwydd mi fydd hi'r flwyddyn ariannol newydd cyn gallai unrhyw waith gael ei gyflawni. Os yw'n bosib gwneud y gwaith ynghynt yna mi fydd yn llythyru gyda chi, y cynghorydd a'r trigolion cyfagos i'ch hysbysu cyn cychwyn.*

*Bydd ganddo well syniad ar ôl derbyn costau terfynol i gynlluniau sydd eisoes wedi eu cwblhau. Ond mae'r lleoliadau ar y rhaglen waith a byddant yn cael eu gwneud cyn gynted a mae ei'n adnoddau yn caniatáu. Bydd y ffyrdd yn parhau i dderbyn archwiliadau diogelwch yn unol â chanllawiau'r cynllun cynnal asedau priffyrdd yn y cyfamser.*

*Hyderaf fod hyn o gymorth a byddwn mewn cysylltiad pellach wedi i ni dderbyn rhaglen mwy pendant.*

## e) **Cynllun Tir Comin - Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru – Tan Mynydd Cilgwyn** ***– Uwch Gwyrfai Common Land Scheme - North Wales Fire & Rescue - Gorse Fire Cilgwyn Mountain***

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol dyddiedig 28 Ionawr 2019

**ATAL AMDDIFFYN YMATEB**
**PREVENTING PROTECTING RESPONDING**

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
**Fire and Rescue Service**

Simon A. Smith
**Prif Swyddog Tân / Chief Fire Officer**

28ain Ionawr 2019

Mr D Roberts
Clerc y Cyngor
Cyngor Cymuned Llandwrog
Bryn Meurig
Carmel
CAERNARFON
Gwynedd. LL54 7DS

Annwyl Mr Roberts

**Tân ar Fynydd y Cilgwyn – Gorffennaf 2018**

Diolch am eich llythyr at y Prif Swyddog Tân Simon Smith, dyddiedig 4ydd Ionawr 2019 a dderbyniwyd ar yr 8fed Ionawr 2019, ynghylch rheoli tanau ar dir comin Uwch Gwyrfai. Mae Mr Smith wedi gofyn i mi, fel pennaeth Ymateb Gweithredol, i ymateb ar ei ran.

Yn gyntaf a gaf i ymddiheuro am beidio ag ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20fed Awst 2018, yn anffodus nid oes gennych unrhyw gofnod o fod wedi derbyn y llythyr hwnnw.

Rwyf yn falch bod y cyngor wedi canmol gwaith yr asiantaethau yn enwedig y Gwasanaeth Tân yn ystod y tanau a ddigwyddodd yng Ngorffennaf 2018 a byddaf yn sicrhau bod y criwiau a ymatebodd i'r tanau yn cael gwybod am eich llythyr a diolch iddynt am eu hymdrechion ar eich rhan.

Mewn perthynas â gweithio gyda phartneriaid a chynorthwyo i ddatblygu'r strategaeth a'r cynllun ar gyfer rheoli tyfiant ar y tir comin yn y dyfodol byddem yn hynod awyddus a balch o fod yn rhan o'r gwaith hwn.

Y person mwyaf addas i'ch cynorthwyo ydi'r Rheolwr Gorsaf Rodney Poole, sydd yn gweithredu fel Rheolwr Ardal yn eich ardal chi. Mae modd cysylltu gydag ef yn

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Swyddfa Sir Gwynedd
Ffordd Llanberis
CAERNARFON
LL55 2DF

Yn gywir

Richard Fairhead
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi.

Fire and Rescue Service Headquarters
Ffordd Salesbury, St Asaph Business Park

**6** **Derbyn Cofnodion Cyfarfod Arbennig – Ymgysylltu Gyda'r Gymuned a gynhaliwyd 7 Chwefror 2019 fel rhai cywir** *- To accept the minutes of the Special Meeting – Consulting With The Community Meeting held 7 February 2019, as a true record*

**7** **Materion yn Codi o'r Cofnodion** *– Maters Arising from the Minutes*

---

**8** **Derbyn Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 13 Chwefror 2019 fel rhai cywir** *- To accept the minutes of the Finance Committee Meeting held 13 February 2019, as a true record*

**9** **Materion yn Codi o'r Cofnodion** *– Maters Arising from the Minutes*

---

**10** **Mabwysiadu Rheolau Sefydlog Y Cyngor** *– Adopt the Council's Standing Orders*

Mabwysiadwyd Rheolau Sefydlog Y Cyngor nol yn Mai 2018 gan fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi Model Cenedlaethol, y cyntaf ers 2013 . Ym Mehefin 2018 cyhoeddwyd Model Cenedlaethol newydd gyda amrywiol addasiadau ynddo. Mae'r Panel Rheolau Sefydlog wedi addasu Rheolau Sefydlog y Cyngor i gynnwys yr addasiadau hynny.

The Council adopted the Standing Orders back in May 2018 as the Government published a new national Model, the first since 2013. In June 2018 a revised National Model was published with amendments. The Standing Orders Panel shas revised the Standing Orders to include the amendments.

**Mabwysiadu Polisi Newydd Polisi Diogelu Data** *– Adopt a new Policy - Data Protection Policy*

**Canllaw delio a Chais odan Deddf Rhyddid Gwybodaeth – atodiad yn unig i'r Polisi cyfredol /Guidance on dealing with Freedom of Information request – annex only to current Policy**

**Mabwysiadu Datganiad Preifatrwydd** *– Adopt Privacy Statement*

***GWEITHREDU – mabwysiadu y Rheolau Sefydlog, y Polisiau a'r Datganiad Uchod.***
***ACTION REQUIRED – to adopt the revised Standing Orders, Policies & Privacy Statement***

---

**11** **Talu am barcio yn Dinas Dinlle -** *Parking Ccharges at Dinas Dinlle*

Cynnal trafodaeth ar y mater yn dilyn pemderfyniad Cyngor Gwynedd i godi ffi parcio fel rhan o gynllun Ii gau y bwlch ariannol sydd yn ei gwynebu yn 2019-20. Rhaid i aelodau sylweddoli nodi fod yr ymynghoriad cyhoeddus ac y cyfnod cynnig sylwadau wedi dod i ben.

To discuss the matter following Gwynedd Councils decision to introduce parking charges at Dinas Dinlle . Members should note that the consultation period has ended

***GWEITHREDU – cynnal trafodaeth yn unig***
***ACTION REQUIRED – to discuss the matter only***

---

**12** **Cadarnhau Penodi Archwiliwr Mewnol am y Flwyddyn Ariannol 2018-19***– Confirm the Appointment of the Internal Auditor for the financial year 2018-19*

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gynghorau tref a chymuned gynnal trefniadau digonol ac effithiol o archwilio mewnol o'u cofnodion cyfrifyddu a'u system o reoli mewnol.
Mae yna tair elfen allweddol i'r gwaith –

- Prawf cydymffurfio yn erbyn gofynion y datganiad blynyddol
- Lefel uchel o adolygiad dadansoddol o'r wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a ddarperir I'r archwilydd
- Adolygiad o'r datganiad llywodraethu blynyddol deuran a ddarperir gan y Cyngor a'r adroddiad ategol gan gan yr archwilydd mewnol

***GWEITHREDU – cadarnhau apwyntiad WJ Mathews fel archwilydd mewnol i'r Cyngor am y flwyddyan ariannol 2018-19***
***ACTION REQUIRED – to confirm the appointment of WJ Mathews as the councils Internal Auditor for the financial year 2018-19***

---

## 13 Materion yn codi gan Aelodau / *Maters Arising from Members*

---

# Gohebiaeth / Communication

## 14 Gohebiaeth gan Trigolyn o'r Groeslon – *Communication from a Resident from Y Groeslon*

Rwy'n byw yn Groeslon ers 2004 ac mae'n bryder mawr i mi bod nifer y ceir sy'n cael ei parcio lawr y stryd o dro Cae Sarn hyd at droiad Lon Newydd wedi cynyddu yn syfrdanol dros y blynyddoedd. Nid yn unig hynny, mae nifer o'r ceir wedi ei parcio yn bell oddi wrth waliau ffrynt y tai fel eu bod yn tarfu ar lif y traffig. Mae'n eithriadol o beryg cyn 9 a.m ac nid oes digon o le i ddau gerbyd basio'i gilydd yn saff. Mae'n anodd dod o hyd i le i dynnu mewn i adael i geir basio'i gilydd. Rwyf wedi cael sawl 'near miss' yn ddiweddar oherwydd i blentyn ddod allan yn sydyn tu ol i gar wedi ei barcio a rhagwelaf y bydd yna ddamain ddifrifol os na gellir gwneud rhywbeth i drio gwella'r sefyllfa. Cefais dipyn o fraw bore heddiw pan fu bron i mi feth stopio'r car pan lithrodd ar yr allt i lawr am Penionyn. Er gwaetha'r rhybuddion am eira a rhew doedd y lon heb ei gritio. Fu bron i mi blymio'r car i mewn i griw o blant ysgol oedd yn aros am y bws. Roedd yn brofiad brawychus iawn. Rwy'n ymwybodol bod y Cyngor Sir angen arbed arian ond mae peidio gritio ffordd brysur yn ffwlbri llwyr. Ar y pryd hefyd roedd ceir wedi ei parcio ar y llinellau melyn tu allan i'r Neuadd, yn amlwg rhieni mynd a plant i'r Ysgol Feithrin. Oes bosib gwneud cais i gael estynnu'r llinellau melyn ar yr allt o Cae Sarn hyd at y Neuadd? Yn bendant fe fyddai hyn efallai yn codi gwrychyn ambell un ond yn gwneud y lon yn lawer iawn saffach i'r mwyafrif. Beth yw barn y Cyngor Cymuned?

***GWEITHREDU – ystyried y cwyn a gweithredu fel bo'r angen.***
***ACTION REQUIRED – to consider the complaint and act as necessery***

---

## 15 Biniau Halen – Cwynion a Dderbyniwyd – *Salt Bins – Complaints Received*

Derbyniwyd cwynion gan aelodau o'r gymuned ynglyn y ffaith nad oes grit yn y biniau yn arbennig ardal Brynhyfryd, Carmel a Cilgwyn. Mae Cyngor Gwynedd yn cyfeirio pob cwyn yn ol at Cynghorau Cymuned ac yn datgan mai y Cyngor Cymuned sydd ar fai gan nad ydynt yn prynu'r gwasanaeth.

Complaints were received by members of the public due to the fact that the salt bins were empty. Gwynedd Council refers all complaints back to the Community Councils and states that the reason why the bins are empty is because the Community Council does not buy the service from Gwynedd.

Atgoffir yr aelodau o benderfyniad y Cyngor 15 Hydref 2018 / Members are reminded of the Councils decision October 15 , 2018

*Sylwadau Aelodau –*

*AP - ymgysylltu gyda'r gymuned sydd yn mynd i benderfynu prynu'r gwasanaeth ai peidio*
*EW - sawl bin halen sydd yn y gymuned? Rheolwr - heb gael ateb pendant gan Gyngor Gwynedd ond oddeutu 12.*
*DCD - Gaeaf caled o'n blaenau eto yn ôl y rhagolygon tywydd. O'r farn y dylid ystyried prynu'r gwasanaeth.*
*DW - ydi'r biniau yn y llefydd priodol? Oes angen llenwi pob bin halen? Angen bod yn wyliadwrus ac o'r farn mai dyletswydd Cyngor Gwynedd ydi llenwi'r biniau.*

***Penderfynwyd oedi ar y penderfyniad hyd nes y bydd canlyniad yr ymgysylltu wedi dod i law.***
***Resolved – to delay any decision until the result of the questionnaire is revealed***

***GWEITHREDU – ystyried y mater a gweithredu fel bo'r angen.***
***ACTION REQUIRED – to consider the matter and act as necessery***

---

## 16 Cyngor Gwynedd – Adolygiad Cludiant Cyhoeddus *– Gwynedd Council Review of Public Transport* c

Fel y gwyddoch, mae'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd wedi gweld cyfnod anodd iawn dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gwmnïau yn gorfod cau neu colli trwyddedau.

Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu 1.5 miliwn ar gynnal y rhwydwaith bob blwyddyn ac yn cyfrannu 476 mil i'r Llywodraeth am Gerdyn Teithio am ddim (dros 60 ac anabl).

Mae wedi dod yn glir y bydd y sefyllfa ariannol fydd yn gwynebu Cyngor Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf yn fwy heriol nag erioed a bydd angen cyfiawnhau pob ceiniog o wariant. Mae'n anorfod bellach bod adolygiad cynhwysfawr ar y rhwydwaith yn cael ei gynnal i ddeall beth yw anghenion trigolion Gwynedd am gludiant cyhoeddus, ac yna ceisio llunio rhwydwaith i gyfarch yr angen hwnnw mewn modd effeithlon a chost effeithiol.

I wneud hynny mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio gyda Prifysgol Bangor i ddylunio holiadur a chael cyn gymaint o drigolion Gwynedd boed nhw yn defnyddio'r gwasanaethau neu ddim i gwblhau'r holiadur. Ein nod fydd cyfrifo pa lwybrau bysiau sydd yn darparu'r gwerth cymdeithasol mwyaf i'n trigolion. Byddwn yn casglu gwybodaeth o 2 Ionawr 2019 hyd at 30 Ebrill 2019. Amgaeaf gopi o'r holiadur i'ch sylw.

Bydd teithwyr yn cael eu holi am bwrpas eu taith h.y. i siopa, mynediad i waith, addysg, cymdeithasu neu iechyd ac i ba raddau mae eu lles yn gwella drwy ddefnyddio gwasanaeth bws.

Mae'r adolygiad yma yn mynd i gymryd blwyddyn a hanner i gwblhau.

Rydym yn gwybod bod rhai trigolion yn cael trafferth i fynychu apwyntiadau iechyd e.e. mynd i weld eu meddyg, rhai eraill methu mynd i siopa neu i'r banc ac yn fwy pryderus fod yr henoed yn cael eu ynysu a gweld neb am ddiwrnodau am nad oes gwasanaeth bws digonol ar gael yn y pentrefi gwledig.

Ein bwriad yw cyfarch anghenion mwyafrif o bobl Gwynedd boed hynny ar fws mawr, bws mini, dacsi neu wasanaeth ar alw.

Mae croeso i chwi fel Cyngor anfon eich adborth/sylwadau yn uniongychol i mi cyn 30 Ebrill 2019 neu os dymunwch i gael cyfarfod i drafod hyn ymhellach mi fedrwch gysylltu â mi i drefnu dyddiad.

Hefyd os dymunwch gopiau caled o'r holiadur cysylltwch a mi, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn annog eich cymuned I gwblhau'r holiadur.

As you are aware, the public transport network in Gwynedd has experienced a very difficult time over the past few years as a result of companies closing down or licences being revoked.

The Council spends approximately 1.5 million on maintaining the network every year and contribute 476 K to the Government for the Welsh Concessionary Card (over 60 and disabled).

It has become clear that the financial situation facing Gwynedd Council over the next years will be more challenging than ever and it will be necessary to justify every penny spent. It is now inevitable that a thorough network review is undertaken to understand the need of Gwynedd residents for public services and then establish a network to address these needs in the most efficient and cost effective means.

In order to complete this the Council has been working with Bangor University to design a questionnaire and get as many of Gwynedd residents, whether they are bus users or not to complete the questionnaire. Our aim will be to calculate which bus routes provide the maximum social value to our residents. We will collect the information from 2 January 2019 until 30 April 2019. I enclose a copy of the questionnaire for your attention.

Passengers will be questioned about the purpose of their journey i.e. shopping, access to work, education, health or socialising and to what extent do their well-being improves by using the bus service.

The review will take a year and a half to complete.

We know that some residents are struggling to attend medical appointments e.g. visiting the doctor, others unable to shop or visit a bank and more concerning the elderly being isolated and see no one for days because there is no adequate bus service available in rural villages.

Our intention is to greet the needs of the majority of the people of Gwynedd, whether this is on a large bus, mini bus, taxi or demand respond service.

Please feel free to send me your feedback/comments directly to me before 30 April 2019 or if you wish to meet to discuss this further please contact me to arrange a meeting.

Also, if you want hard copies of the questionnaire please contact me, we would be grateful if you could encourage your community to complete the questionnaire.

***GWEITHREDU – ystyried yr ohebiaeth a gweithredu fel bo'r angen.***
***ACTION REQUIRED – to consider the communication and act as necessery***

---

**17 Cyngor Gwynedd - Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Gorchymun Caniatau Datblygu Cyffredinnol 1995 Rhybudd o Dan Rhan 23B i Atodlen 2 – Symud Deunydd o Ddyddodion Gweithio MwynauTomen Lechi Bryn Fferam, Y Fron, Gwynedd**

**Gwynedd Council - Town and Country Planning Act 1990 General Permitted Development Order 1995 Notice Under Part 23B to Schedule 2 – Removal of Material from a Mineral Working DepositBryn Fferam Slate Tip, Y Fron, Gwynedd**

Mae'r rhybydd uchod wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd ar 8/2/19 – mae copi o'r cynllun wedi ei atodi gyda'r ohebiaeth. Mae pob aelod wedi derbyn copi o'r cynlluniau ymlaen llaw gan y Rheolwr.Mae angen I'r awurdod cynllunio benderfynu o fewn 21 diwrnod o ddyddiad derbyn y rhybydd os oes anen I cyglwyno cyfarwyddyd dan Erthyl 7 o'r gorchymun er mwyn tynnu'r hawliau datblygu dan Rhan 23B yn ol.Gofynnir am sylwadau eryn 25 Chwefror 2019.

The above notification has been received by Gwynedd Council on 8/2/19 – a copy of the plans has been given to this Council & the Manager has forwarded a copy to all members. The Planning Authority is required to determine within 21 days of the date of receipt of the notice whether to serve an Article 7 direction to withdraw the developments rights under Part 23B. Comments should be sent to Gwynedd Council within by 25 February 2019.

***GWEITHREDU – ystyried y rhybydd a cynnig sylwadau.***
***ACTION REQUIRED – to consider the notification and offer comments***

---

## 18 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

### Ceisiadau Chwefror 2019 - Applications for February 2019

Cais Rhif / Application Number - **C18/1100/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **The Studio, 1 Penrallt Villas, Lon Cefn Glyn, Y Groeslon LL54 7UF**
Bwriad / Proposal - **Cais diwygedig i ganiatad rhif C07A/0159/17/LL er ail leoli'r estyniad a diwygio'r dyluniad . Amended application to consent number C07A/0159/17/LL to re-locate extension and amend the design.**

***GWEITHREDU – cynnig sylwadau, gwrthod neu caniatau y cais/ceisiadau***
***ACTION REQUIRED – to offer comments, reject or approve the development/s***

---

## Materion Ariannol / Financial Matters

## 19 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Ionawr 2019 – Income Received January 2019

| **Manylion / Details** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Ffi Claddu / Burial Fees | £315.00 |
| Rhent Tir Pori - Tir Caety / Grazing Rent Brynrodyn (Tir Caety) | £1.00 |
| Ad-daliad TAW / VAT refund | £2,646.26 |
| Grant Llwybrau Cyngor Gwynedd Footpath Grant | £801.89 |

## 20 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved

| **Manylion / Details** | **Swm heb TAW Amount excluding VAT** | **Cyfanswm y Taliad- Total Payment** | **Rhif Siec/ Cheque Number** |
|---|---|---|---|
| Cyflog y Clerc – Chwefror 2019 – Clerks Salary February 2019 | | | Uniongyrchol/Direct |
| HMRC-Treth Incwm Chwefror 2019 – Income Tax February 2019 | | | Uniongyrchol/Direct |
| Lwfans Clerc – Chwefror 2019 - Clerks Allowance February 2019 | | | Uniongyrchol/Direct |
| Cymru1.net – Gwefan / Website hosting | £187.00 | £224.40 | 101862 |
| Elfyn Ellis – Lloches Bws Cae'r Moel, Carmel Bus Shelter | £5,737.00 | £6,884.40 | 101863 |
| Ann Llwyd – Cyfiethu Ionawr a Chwefror / Translation Costs | £300.00 | £300.00 | 101864 |
| Clerc – Ad-daliad Trwydded Microsoft | | | 101865 |
| WJ Mathews – Cyflogres – Payroll 2018-19 | | | 101866 |

## 21 Dyddiadau Cyfarfodydd Nesaf / *Dates of Next Meetings*

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Mawrth / March Full Council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 18 Mawrth 2019 / Monday 18 March 2019
Amser / Time - 7.30 yr hwyr
Lleoliad / Venue Neuadd – Canolfan y Fron

**22 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (18 Mawrth 2019 / 18 March 2019)** ***Matters to be raised by members in the next meeting***

***Diwedd - end***